





*Y Salmau cynnar*




*Ail Lyfr Gweddi*




*Trydydd Llyfr Gweddi*




*Wyneb-ddalen y Beibl Bach*

Nid yr un yw tudalen deitl Beibl 1588 a Psalmau 1588, er mai Dirprwyon Christopher Barker a argraffodd y ddau lyfr. Ar gyfer y Beibl, a'r Testament Newydd, defnyddiwyd patrwm incil yn ymwau yn debyg i sgrol yn ymagor, gyda'r arfbais brenhinol a'r llew a'r ddraig yn gynheiliaid, a ffrwythau ymhob cornel, patrwm a ddefnyddiwyd yn helaeth gan y wasg ar gyfer Beiblau a llyfrau gwasanaeth Saesneg.

* * *

DEFNYDDIAI Christopher Barker a'i Ddirprwyon dudalen deitl arall ar gyfer y Beibl Saesneg yn ogystal. Ar y brig ceir yr arfbais brenhinol, gyda helm a chrest, yn sefyll rhwng Cyfiawnder a Thrugaredd; ar y gwaelod y mae llew a draig; y mae'r ochrau'n debyg o ran cyflead i'r hyn sydd yn Beibl 1588.

Cadwyd at y patrwm hwn am flynyddoedd lawer oblegid pan ddaeth Iago I i'r orsedd, a Robert Barker yntau wedi dilyn ei dad, newidiwyd yr arfbais a'r ddraig am arfau'r brenin newydd ac unicorn.

Patrwm arall a oedd gan y wasg, eto ar gyfer Beiblau, yw un gyda dau *cherub* ar y top a llyfr a'r Tetragrammaton rhyngddynt, a dau *cherub* ar y gwaelod, a'r ochrau'n cynnwys rhosyn a fleur-de-lis a'r llythrennau E ac R (neu'n ddiweddarach I ac R) gyda choronau uwchben.

Robert Barker, Argraffydd y Brenin, a argraffodd Feibl Awdurdodedig Saesneg 1611 ond ymddengys i gostau'r gwaith hwn ei arwain i ddyfroedd dyfnion a daeth dau lyfrwerthwr/argraffydd i'r adwy gan gymryd cyfranddaliadau yn y wasg. John Bill a Bonham Norton oedd y rhain ac am nifer o flynyddoedd mae imprint y wasg yn amrywio rhwng cyfuniadau gwahanol o'r tri enw, Barker, Bill, Norton. Bu farw Bill yn 1630.

* * *

CYHOEDDWYD Beibl Cymraeg Richard Parry yn 1620, "Printiedig yn Llundain gan Bonham Norton a Iohn Bill, Printwyr i Ardderchoccaf Fawrhydi y Brenhin". Mae perthynas amlwg rhwng y gyfrol Gymraeg a Beibl Saesneg 1611.

Fel y gwyddys, defnyddiwyd y Beibl Saesneg i gynnig rhai newidiadau a diwygiadau yn nhestun William Morgan, a bwriad Richard Parry, yn ei eiriau ef ei hun, oedd gwneud dros fersiwn Cymraeg y Beibl yr hyn a wnaethpwyd yn yr un Saesneg. Naturiol felly oedd adlewyrchu hyn yn yr argraffu.

Y mae i Feibl 1620 dudalen deitl ysblennydd: arwyddion 12 llwyth Israel ar y chwith a'r 12 apostol yr ochr arall; ar y top a'r gwaelod y mae'r pedwar efengylydd yn ysgrifennu ac yn goron ar y cyfan y Tettragrammaton a'r Oen: o dan yr imprint mae'r oen ar yr allor.

Yr un tudalen yw hwn â thudalen deitl Testament Newydd Beibl 1611, a'r un ddyfais hefyd a ddefnyddir ar derfyn Hen Destament Beibl Saesneg 1611 â Beibl Cymraeg 1620.

Mae tudalen deitl Testament Newydd Beibl 1620 yntau'n ddiddorol, oblegid yr hyn a wnaed yma oedd defnyddio'r patrwm y soniwyd amdano uchod sy'n dangos Cyfiawnder a Thrugaredd ond newid yr ochrau am rai'r patrwm gwahanol sy'n cynnwys yr I a'r R goronog.

Mae hyn yn gystal prawf â'r un mai pedwar bloc gwahanol sy'n ffurfio'r patrwm, ond mae'n dangos hefyd fel y gellid aberthu synnwyr a chelfyddyd am resymau anartistig oherwydd mae'n gwbl amlwg nad yw'r ochrau hyn yn perthyn i'r top a'r gwaelod. Mae un copi o Feibl 1620 yn y Llyfrgell Genedlaethol sy'n fwy cymysg fyth. Yn hwn defnyddiwyd tudalen deitl y Testament Newydd yn lle'r tudalen deitl ysblennydd, torri allan y darn canol sy'n rhoi'r teitl a gludo yn ei le yn y "ffenestr" hon deitl *Y Bibl Cyssegr-lan* etc.

* * *

NORTON a Bill a argraffodd Lyfr Gweddi Gyffredin 1621, ac 'Assignes' John Bill Lyfr Gweddi Gyffredin 1634. Imprint Beibl 'Bach' 1630 yw Robert Barker Printiwr i Ardderchoccaf fawrhydi y Brenin ac 'Assignes' John Bill, ac fel y cofir mae hwn hefyd yn cynnwys y Llyfr Gweddi Gyffredin.

Yr un tudalen deitl sydd i'r Beibl, y Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi, ond mae Salmau Cân Edmwnd Prys, sydd hefyd yn rhan o'r gyfrol yn dilyn arfer gwahanol, sef creu ymyl i'r tudalen deitl o addurniadau teipograffig, arfer a geir gyntaf yn ail hanner y 16fed ganrif megis yn Gramadeg Henry Salesbury 1593 ac *Eglvryn Phraethineb* 1595 (atgynhyrchiad 1930).

Addurn pensaernïol sydd yn y Beibl a'r Llyfr Gweddi, a hwn eto'n un tra chyffredin o 1615 ymlaen gan Barker a John Bill, sef y Tetragrammaton mewn gogoniant a *Fides* a *Religio* yn addoli o'i flaen (ceir addurn tebyg lle y ceir dau berson yn addoli), colofnau ar y ddwy ochr a Dafydd a'i delyn ar y gwaelod.

Erbyn 1630 yr oedd yr addurn hwn yn dirywio'n enbyd nes ei bod yn amhosibl cadw'r darnau at ei gilydd yn y wasg fel y gwelir yn eglur yn y Beibl Cymraeg.

Nid oes ofod yn awr i fanylu ar ddyfeisiadau ac addurniadau tra diddorol y Beibl Bach, ond efallai y daw cyfle rywbryd eto i gymharu'r holl Feiblau hyn â'i gilydd.

NODYN AR LYFRAU. Ceir hanes yr argraffwyr yn R.B. McKerrow, *Dictionary of Printers and Booksellers 1557-1640*, golygiad 1968. Hollol anhepgor yw llyfr McKerrow a Ferguson, *Title-Page Borders 1485-1640* (1932), a McKerrow, *Printers and Publishers Devices* (1913), ac elwais lawer ar y gweithiau hyn.